Cyngor Cymuned Llandwrog
Community Council

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor
Council Minutes

19 Tachwedd 2018 / 19 November 2018

Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

Cofnodion y cyfarfod o Gyngor Cymuned Llandwrog a gynhaliwyd Nos Lun, 19 Tachwedd 2018 yn Neuadd Pentref Y Groeslon.

Minutes of the Full Council Meeting held Monday evening, 19 November 2018 at Groeslon Village Hall.

Yn bresennol / Present - 7 aelod / members

Yn cynrychioli Ward y Fron – Representing the Ward of Fron
Cyng. Gwyn Owen Jones;

Yn cynrychioli Ward Carmel – Representing the Ward of Carmel
Cyng. Bryn Williams, Cyng. Alan Patterson

Yn cynrychioli Ward Y Groeslon – Representing the Ward of Y Groeslon
Cyng. Alun Wyn Jones; Cllr. Eddie Willcox; Cyng. David C Davies; Cyng. Gerwyn Owen;

Yn cynrychioli Ward Llandwrog a Dinas Dinlle - Representing the Ward of Llandwrog & Dinas Dinlle
Dim cynrychiolaeth / No representation

Hefyd yn bresennol / Also in Attendence-

David Roberts, Rheolwr Gweinyddol a Chyllid y Cyngor / Council's Administartive & Finance Manager
Huw Roberts , Cyfieithydd / Translator

18-11-01 **1 Croeso'r Cadeirydd / *Chairman's Welcome***

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Gwyn Owen Jones. Aeth yn syth at y rhaglen

The meeting was opened by the Chairman, Cllr.Gwyn Owen Jones. He welcomed all the members & proceeded on to the evening's business

---

18-11-02 **2 Ymddiheuriadau am Absenoldeb / *Apologies for Absences***

Cyng. Hywel J Owen, Cyng. Clive Bayley. Cyng David M Lewis; Cyng. Helen Hughes

---

18-11-03 **3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar y Unrhyw Eitem ar y Rhaglen - Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000 - *To Receive disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000***

David Roberts, Rheolwr Gweinyddol a Chyllid – Eitem Panel Gwaith y Clerc.
David Roberts, Administration & Finance Manager- Clerks Working Group

---

18-11-04 **4 Cadarnhau Enwau Aelodau ar Fandad Banc y Cyngor / *To confirm Names of Members on the Bank Mandate***

Penderfynwyd awdurdodi yr aelodau canlynol gan gynnwys Rheolwr Gweinyddol a Chyllid y Cyngor yn unig i arwyddo sieciau y Cyngor ac gynnwys yr enwau ar mandad banc y Cyngor -

Resolved – to authorise the following members including the Councils Administrative & Finance Manager only to be signatories on the Councils cheques and for the names to be included on the banks mandate -

1 David Roberts , Rheolwr Gweinyddol a Chyllid / Admin & Finance Manager
2 Cyng. Alan Patterson
3 Cyng. Gwyn Owen Jones
4 Cyng. Helen Hughes
5 Cyng. Gerwyn Owen

18-11-05 **5 Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol a gynhaliwyd 15 Hydref 2018 fel Rhai Cywir / To Confirm the Minutes of the Previous Meeting held on the 15 October 2018 as a True Record**

Awdurdodwyd y Cadeirydd gan y Cyngor i arwyddo'r cofnodion fel rhai cywir.
The Council authorised the Chairman to sign the minutes as a true record.

18-11-06 **6 Materion yn Codi o'r Cofnodion / Matters Arising from the Minutes**

18-11-07 **Ymddygiad Gwrth Gymdeithasol ac Yfed dan oed yn Y Groeslon ar benwythnosau / Unsociable Behaviour & Under Age Drinking at Groeslon during the weekends**

Trafodwyd y mater fel a nodwyd ar y rhaglen.

Yn ychwanegol darllenodd y Cadeirydd lythyr a dderbyniwyd gan Comisiynydd yr Heddlu, Arfon Jones.

Nodwyd y canlynol o lythyr y Comisiynydd
- wedi cysylltu gya Uwch arolygydd Dros Dro Wynedd a Mon I drafod y materion
- y Comisiynydd wedi ei fodloni fd y swyddogion lleol yn ymwybodol o'r sefyllfa
- Swyddog Cyswllt ysgolion lleol wedi mynychu'r ysgol leol I drafod y mater
- Tim Cymunedol Diogelwch Caernarfon ar XCylch hefyd yn ymwybodolo'r mater
- Staff wedi cael eu tasgi i fynychu Groeslonar benwythnoau ac mae caeau Tyddyn Misnier ar y cynllun patrol
- Uwch Arolydydd wedi gofyn i'r Rhingyll lleol i gysylltu gyda'r Cyngor i drafod y pryderon ac i esbonio beth mae'r Heddlu yn ei wneud ynghylch y bobol ifanc sydd yn ymgynyll yn Y Groeslon

Sylwadau Aelodau –
Cyng. Gerwyn Owen – dim golwg o'r plant ar hyn o bryd oherwydd y nosweithiau tywyll. Angen cadw golwg ar y sefyllfa erbyn Gwanwyn nesaf.
Cyng. Alan Patterson – diffyg adnoddau gan yr heddlu – yn gwasanethu ardal eang.
Cyng. Bryn Williams – yn datgan fod yr heddlu wedi colli 20,000 o heddweision yn y blynyddoedd diweddar.

Adroddwyd gan y Rheolwr fod yr heddlu wedi ymddiheuro i un teulu yn y Groeslon am beidio a ymyryd a gwasgaru plant o'r pentref wrth batrolio yr ardal ar Nos Wener 5ed o Hydref

Pendefynwyd derbyn y wybodaeth a monitro y sefyllfa yn ystod y Gwanwyn
Resolved – to note the information and to monitor the situation during the Spring.

18-11-08 **Grant Tyrbeini Gwynt Dinas Dinlle / Wind Turbine Grant Dinas Dinlle**

Adroddwyd gan y Rheolwr nad oedd wedi derbyn ymateb gan Cyngor Gwynedd ynhlyn sefyllfa y gronfa.

Penderfynwyd gofyn eto am y wybodaeth
Resolved – to ask again for the information

18-11-09 **Ffoes Brynrhos , Llifogydd Teras Dyffryn a Cae Sarn / Flooding Dyffryn Teraace & Cae Sarn Area in Groeslon**

Adroddwyd gan y Rheolwr fod llythyr wedi ei anfon at Ian Morgan a Cyngor Gwynedd yn gofyn i'r Cyngor Sir defnydio eu disgresiwn i lanhau y ffoes a defnyddio grym Deddf Tir i orfodi perchnogion i gyllido unrhyw waith sydd ei angen ar y ffoes i osgoi llifogydd i'r dyfodol.

Nid oes ymateb wedi cyrraedd.

Penderfynwyd ar y canlynol

1) ***Pwyso ar Cyngor Gwynedd am ymateb***
2) ***Gofyn i Sian Gwenllian AC a Hywel Willimas AS i ddwyn pwysau ar Cyngor Gwynedd i weithredu yr hynny sydd ei angen***

The following was resolved

1) ***To press Gwynedd Councl for a reply***
2) ***To ask Sian Gwenllian AM & Hywel Willimas MP to press on Gwynedd Council to use their power to implement the work that is required.***

18-11-10 **Chwarel Y Fron**

Trafodwyd ymateb Dafydd Gareth Jones Swyddog Mwynau a Deunyddiau Cyngor Gwynedd

Sylwadau aelodau

Cyng. Eddie Willcox – tractors yn parhau i dorri amodau yr amodau cynllunio. Yn cario deunydd o'r chwarel ar Ddydd adwrn yn groes i'r hawliau.
Criw o'r Fron yncasglu tystiolaeth trwy ddefnydio camerau.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth fel y nodwyd a codi'r mater eto unwaith y bydd trigolion Y Fron wedi caglu tystiolaeth cadarn o dori amodau

Resolved to receive the information as noted and to raise the matter once the residents of Fron have gathered the evidence of breaching the planning rights.

18-11-11 **Cerrig Goffa Bryn'rodyn a Brynrhos / Memorial Headstone Bryn'rodyn & Bryn'rhos Chapels, Groeslon**

Adroddwyd gan y Cadeirydd fod y gwaith wedi ei gwblhau erbyn diwrnod y cofio.
Roedd yn diolch i bawb a oedd yn gyfrifol. Estynwyd diolch arbennig I cyng. Hywel J Owen am brynu torch ac i Iolo Owen o Gwmni Roberts ac Owen am gyfaleni gwaith ar y cerrig yn rhad ac am ddim.

18-11-12 **Fainc Mynwent Bryn'rodyn / Bench at Bryn'rodyn Cemetery**

Adroddwyd gan y Rheolwr fod Carol Jones, cymer y diweddar Selwyn Jones (wedi cysylltu yn gofyn i'r Cyngor am yr hawl I osod plat ar wal y fynwent er cof amdano.

Awgrymodd y Rheolwr iddi ystyried osod mainc a plat er cof arno.

Sylwadau Aelodau –
AWJ – gofyn i'r Cyngor bwyllo rhag ofn derbyn ceisiadau tebyg i'r dyfodol.

Penderfynwyd – caniatau y cais, os daw i law, i Carol Jones i osod fainc ar blaen y fynwent er cof am Selwyn Jones gan fod y Cyngor wedi penderfynu archebu fainc ac fod Selwyn Jones wedi bod yn gontractwr ffyddlon I'r Cyngor am rhai blynyddoedd.

Resolved – to authorise the request, if received, to place a bench at the front of the Cemetery in memory of Selwyn Jones as the Council had resolved to purchase a bench and that Selwyn Jones had been a faithful ontractor to the Council for some years.

18-11-13 **7 Derbyn Cofnodion Cyngor Arbennig a Gynhaliwyd 15 Tachwedd 2018 To Confirm the Minutes of the Special Council held on 15 November 2018 with Carmel Village Committee as a True Record.**

Awdurdodwyd y Cadeirydd gan y Cyngor i arwyddo'r cofnodion fel rhai cywir.

The Council authorised the Chairman to sign the minutes as a true record.

18-11-14 **8 Materion yn Codi o'r Cofnodion / Matters Arising from the Minutes**

Lloches Bws Cae'r Moel – Damwain

Eglurodd y Cadeirydd i'r aelodau hynny nad yn bresennol yn y Cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd 15 Tachwedd 2018 mai penderfyniad y Cyngor oedd dymchwel y lloches oherwydd ei gyflwr peryglus ac i osod lloches wyrdd ar yr un safle. Gan fod Cyng. Eddie Willcox wedi datgan pryder am roedd y Rheolwr wedi ei gyfarwyddo I ofyn I Cyngor Gwynedd am eu barn o ran lleoli y lloches Newydd.

Ymgysylltu ac Ymgynghori gyda'r Gymuned / Consulting With The Community

Cyng. Eddie Willcox - yn awgrymu y dylid rhoi gwybod i'r wasg am fwriad y Cyngor i ymgysylltu gyda'r gymuned. Dywedodd y Rheolwr fod Caryl wedi ei chyfarwyddo i hysbysu'r wasg yn un o'r cyfarfodydd diweddar. Suggested that the Council should issue press release stating its intention r to sending out the letter & questionnaire,

Dywedodd y Rheolwr fod hwn wedi gytuno arno gada Caryl mewn cyfarfodydd blaenorol . The Manager confirmed that this was agreed with Caryl in previous meetings

---

18-11-15 **9 Derbyn Cofnodion Pwyllgor Mynwentydd ac Asedau a Gynhaliwyd 22 Hydref 2018 gyda Aelodau Pwyllor Pentref Carmel fel Rhai Cywir / To Confirm the Minutes of the Cemeteries & Assets Committee held on 22 October 2018 with Carmel Village Committee as a True Record**

Awdurdodwyd y Cadeirydd gan y Cyngor i arwyddo'r cofnodion fel rhai cywir.

The Council authorised the Chairman to sign the minutes as a true record.

18-11-16 **10 Materion yn Codi o'r Cofnodion / Matters Arising from the Minutes**

Sylwadau Aelodau –
Cyng. Alan Patterson - Pwyllgor Pentref wedi clirio gordyfiant o amgylch y lloches. Yn anghrediniol fod pensaer wedi datgan y byddai cost troi'r lloches ar y safle presennol yn ddwbl cost ei ail leoli nes am Sgwâr Coleg.

Y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr Panel y Clerc gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinir ym mharagraffau 11, Rhan 4, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Fe wnaeth y Rheolwr Gweinyddol a Chyllid ddatgan buddiant. Ni wnaeth adael yr ystafell.

18-11-17 **11 Derbyn Cofnodion Panel Gwaith y Clerc a Gynhaliwyd 15 Hydref 2018 To Confirm the Minutes of the Clerks Working Panel held on 15 October 2018**

Awdurdodwyd y Cadeirydd gan y Cyngor i arwyddo'r cofnodion fel rhai cywir.

The Council authorised the Chairman to sign the minutes as a true record.

18-11-18 **12 Materion yn Codi o'r Cofnodion / Matters Arising from the Minutes**

Adroddwyd gan y Cadeirydd fod y Rheolwr Gweinyddol a Chyllid y Cyngor ac wedi cytuno gyda cynnwys y Swydd Ddisgrifiad a'r Gytundeb Cyflogaeth. 'Roedd y Rheolwr a'r Cadeirydd wedi ei arwyddo cyn l'r cyfarfod gychwyn.

Penderfynwyd – cadarnhau penderfyniad y Cyngor ar 15 Hydref 2018 i osod graddfa'r cyflog ar Graddfa LC2 26-32 ond fod y cyflog presennol y deilydd swydd yn Pwynt 30 ac yn weithredol o 1 Ebrill 2018.

Resolved – to confirm the Councils decision on 15 October 2018 to bring the grade of the post to LC2 – Point 26-32 but that the current holder of the post is fixed at Point 30 and to be effective from 1 April 2018

---

13 Materion a Godwyd gan Aelodau / Items Raised by Members

18-11-19 **Gridiau Gwartheg a Gwartheg yn y Pentrefi**

Cyng. Alan Patterson, Carmel
Adroddwyd gan AP fod cwynion wedi ei gyrraedd gan drigolion Carmel fod gwartheg yn crwydro'r pentref ac yn beryglus. Ymddengys fod rhywrai yn cadw giatiau ar agor yn fwriadol i adael y gwartheg grwydro lawr o'r mynydd.

Sylwadau Aelodau –

Cyng. Bryn Williams - hawl gan y gwartheg i grwydro oll o'r tir comin gan gynnwys y pentrefi. 'Does dim all neb ei wneud i rwystro defaid na gwartheg grwydro'r strydoedd. Dim bai ar y ffermwr fod y gwartheg yn dod lawr o'r mynydd i'r pentref gan fod rhywrai yn fwriadol yn gadael y giatiau ar agor. Aeth yn ei flaen i ddatgan petai'r cynllun a weithredwyd oddeutu 15 mlynedd yn ôl gan Cymad wedi ei wneud yn gywir (hynny yw bod gridiau wedi ei gosod yn y Fron) ni fyddai'r anifeiliaid yn dod trwodd i'r pentref.

Cyng. Eddie Willcox – yn gwneud y sylw fod trigolion wedi gweld gwartheg yn crwydro cyn belled a Clogwyn Melyn ac i lawr am Y Groeslon.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth yn unig gan fod y mater yn codi yn flynyddol a bod gan y ffermwr hawl i bori ar dir comin. Mae'r ffaith fod y ffaith fod giatiau yn cael ei agor yn fwriadol tu allan i reolaeth y ffermwr
Resolved – to note the information only as this matter is raised annually and that the farmer has every right to graze stock on the common land. The fact that the gates are deliberately kept open therefore allowing the cattle to roam the streets is beyond the control of the farmer.

18-11-20 **Gridiau Gwartheg**

Cyng. Eddie Willcox

Adroddwyd gan EW fod Parc Cenedlaethol Eryri wedi llwyddo i gael grant o £400,000 i reoli tir Comin Uwch Gwyrfai. Swydd Cydlynydd wedi ei hysbysebu ar wefan y Parc. Nodwyd ganddo fod yna fwriad i osod grid gwartheg rhwng Rhosgadfan a Fron yn ystod y Gwanwyn.

Sylwadau Aelodau -
Cyng. Bryn Williams - Nid oes son am gridiau yn y Fron yn y cynllun newydd - ar hyn o bryd. Cyfarfodydd wedi ei drefnu gan Gymdeithas y Porwyr yn fuan ac yn argymell i'r Cyngor hwn beidio gweithredu hyd nes y bydd y cyfarfodydd wedi digwydd.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth a chynnwys y mater ar raglen y Cyngor yn y Gwanwyn wedi i'r sefyllfa ddod yn eglur yn dilyn cyfarfodydd y Porwyr.
Resolved – to note the information and to include the item in the Spring once the situation becomes clearer following the meetings held by the Graziers

18-11-21 **Diffribiliwr yn y Groeslon**

Cyng. Alun Wyn Jones, Groeslon

Adroddwyd fod yna ymgyrch yn y pentref gan griw o bobol i gael dwy uned diffribilwr yn y pentref. Y bwriad yw lleoli un ar dalcen y Neuadd ac un arall i fynnu'r lon. Amcangyfrif mai £1500 yr un yw'r gost, felly nod ariannol i gasglu £3,000. Efallai y bydd cais yn cyrraedd y Cyngor yn fuan am gyfraniad.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth ac ystyried cyfrannu unwaith y daw cais i law.
Resolved – to accept the information and to consider a contribution once athe request is received

18-11-22 **Cwn Rhydd an Aflonyddu a Lladd Defaid / Stray Dogs Disturbing & Killing Sheep**

Cyng. Gwyn Owen Jones a Cyng. Bryn Williams

Adroddwyd gan GOJ fod cwn rhydd yn ardal Buarth yn aflonyddu ar ddefaid. Un bugail wedi ei rhybuddio y bydd yn rhoi shot i unrhyw gwn fydd yn aflonyddu ei ddefaid yn y cyffiniau.

BW yn adrodd ei fod o wedi colli defaid yn ddiweddar. Heddlu wedi ymweld y perchennog ond heb weithredu. Gan fod y cwn yma wedi cael blas gwaed defaid ofnir y bydd mwy o ddefaid yn cael ei lladd.

Penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd osod arwyddion DIM CWN RHYDD yn yr ardal.
Resolved – to ask Gwynedd Council for signs NO STRAY DOGS in the Community

18-11-23 **Cae Chwarae Y Groeslon**

Cyng. Gerwyn Owen –

Siomedig gyda safon y gwaith. Er bod y cae yn wyrdd honnir nid yw i'r safon ddisgwyliedig - y cwmni wedi dewis yr opsiwn rhataf.
Gwaith ei angen ar y ffosydd - Cwmni Watkin Jones wedi gwrthod derbyn cyfrifoldeb am gynnal y ffosydd felly'r ysgol yn gorfod ysgwyddo'r costau. Costau sylweddol ar gynnal y ffosydd.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth gan ddisgwyl adroddiad gan aelodau lleol yn y Gwanwyn.
Resolved – to accept the information and to ask the local members for an update in the Spring

---

Gohebiaeth a Dderbyniwyd / Communication Received

18-11-24 **11 Comisiwn Ffiniau a Democratieth Leol Cymru / Local Democracy Boundary Commission for Wales**

Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol ar gyfer Sir Gwynedd / Review of County Electoral Arrangements for the County of Gwynedd

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth heb sylwadau
Resolved – to accept the information without any comments

18-11-25 **12 Cyngor Gwynedd – Banciau Ail-Gylchu – Gwynedd Council – Communal Recycling Bins**

Llythyr gan CG yn cadarnhau fod y trefniadau presennol yn dod i ben – hynny bydd y banc ail-gylchu yn maes parcio ar ochr hen lon i Penygroes yn cau 29 Hydref 2018

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth heb sylwadau
Resolved – to accept the information without any comments

18-11-26 **13 Cylch yr Iaith**

Trafodwyd y mater fel a nodwyd yn y rhaglen / *Item discussed as included on the agenda*

Sylwadau Aelodau
Cyng. Alun Wyn Jones – yn cefnogi mewn egwyddor i yr hyn sydd dan sylw gan Cylch yr Iaith. Yn llawn sylweddoli pwysigrwydd twristiaeth ond angen rheolaeth ar datblygiadau ymwelwyr i'r ardal

Penderfynwyd ar y canlynol

i) Cefnogi sylwadau Cylch yr Iaithat Cyngor Gwynedd ynglyn a datblygiadau twristiaeth yn y Sir.

ii) Hysbysu Cyng. Dilwyn Lloyd a Cyng. Eric Jones o'r pendefyniad

Resolved

i) To support the issues raised by Cylch yr Iaith to Gwynedd Council

ii) To inform Cllr. Dilwyn Lloyd and Cll. Eric Jones that the Community Council of the decision.

Materion Cynllunio / Planning Matters

18-11-27 **14 Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications - Tachwedd 2018 / November 2018**

Manylion llawn y ceisiadau cynllunio
https://diogel.gwynedd.llyw.cymru/swiftlg/apas/run/wphappcriteria.display?langid=2

Full detais of the Planning Applications
https://diogel.gwynedd.llyw.cymru/swiftlg/apas/run/wphappcriteria.display?langid=1

18-11-28
Cais Rhif / Application Number - **C18/0801/17/LL**
Cyfeiriad / Address - **Uwchlaw'r Rhos, Penygroes, LL54 7UE**
Bwriad / Proposal - **Codi estyniad cefn deulawr / Erection of two storey rear extension**

Penderfyniad y Cyngor – dim gwrthwynebiad
Council Decision – no objection

18-11-29
Cais Rhif / Application Number - **C18/0875/17/LL**
Cyfeiriad / Address - **Dinlle Caravan Park, Dinas Dinlle LL55 5TW**
Bwriad / Proposal - **Cais llawn i resymoli safle pwll nofio presennol trwy ddymchwel adeiladau presennol a chodi adeilad newydd i gynnwys toiledau, campfa, storfa ag ystafell offer a chodi estyniad i gynnwys adnoddau ychwanegol. Full application to rationilse existing swimming pool site by demolishing existing buildings, construction of new buildings, to include new toilets, gym, store and plant room and a new extension to include additional facilities.**

Penderfyniad y Cyngor – gohirio penderfyniad – Cyngor Gwynedd heb gadarnhau cais y Cyngor am wybdaeth ynglyn materin "flood scoping" sydd wedi ei gynnwys yn y cais.

Council Decision – deferred . No information received from Gwynedd Council regarding the flood scoping that is included with the application.

Materion Ariannol / Financial Matters

18-11-30 **15 Derbyniadau Wedi ei Dderbyn Hydref 2018 – Income Received October 2018**

Manylion / Details	Cyfanswm
Ffi Claddu / Burial Fees	(£315.00)

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth .
Resolved to accept the information

18-11-31 **16 Taliadau sydd angen eu hawdurdodi gan y Cyngor - Payments to be approved**

Manylion / Details	Swm heb TAW Amount excluding VAT	Cyfanswm y Taliad- Total Payment	Rhif Siec/ Cheque Number
Cyflog y Clerc – Tachwedd 2018 – Clerks Salary November 2018			Uniongyrchol/Direct
HMRC-Treth Incwm Tachwedd – Income Tax November 2018			Uniongyrchol/Direct
Lwfans Clerc–Tachwedd - Clerks Allowance November 2018			Uniongyrchol/Direct
Alun Williams – Glanhau Llochesi Bws/Cleaning Bus Shelters	£260.00	£260.00	101839
Post Brenhinol / Royal Mail – Trwydded Rhadbost / Freepost Licence	£97.00	£116.40	101840
Post Brenhinol / Royal Mail - Amlenni x 1300 / 1300 pre paid Envelopes	£890.50	£890.50	101841
Gwalch – Gwaith Cae Peldroed Carmel – Work on Carmel Football Field	£709.00	£709.00	101842
Gwalch – Trin Cwanclwm / Treatment for Japanese Knotweed	£420.00	£420.00	101843
Gwalch – Gwaith brys Wal Bryn'rodyn/ Work on Cemetery Wall	£86.00	£86.00	101844
Canolfan Y Fron – Llogi Ystafell x 4 cyfarfod / Room Hire x 4	£72.00	£86.40	101845
Huw Roberts – Cyfieuthu Mis 23 Hydref / 23 October translation	£54.00	£54.00	101846
Huw Roberts – Cyfieuthu Mis 15 Tach / 15 November translation	£54.00	£54.00	101846
Huw Roberts – Cyfieuthu 19 Tach / 19 November translation	£54.00	£54.00	101846

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a rhoddwyd yr awdurdod i'r Clerc i ryddhau'r oll daliadau.
Resolved to accept the information and to authorise the Clerk to release all the payments

---

18-11-32 **17 Materion i'w Codi gan aelodau i gyfarfod nesaf o'r Cyngor llawn / matters to be raised by Members for the Next Meeting (17 Rhagfyr 2018 / 17 December 2018)**

Cyng. Eddie Willcox , Groeslon –
Mainc i gae chwarae Y Fron / Bench Fron Playing Field

Cyng. Gerwyn Owen, Groeslon –
Cyflwr y lonydd yn y gymuned a dylanwad Cynghorwyr Sir. / Conditions of raods within the community and the influence of local members.

18-11-33 **18 Dyddiadau Cyfarfod Nesaf / *Dates of Next Meetings***

Cyfarfod / Meeting – **Cyngor Llawn Mis Rhagfyr / December Full Council**
Dyddiad / Date - Dydd Llun 17 Rhagfyr 2018 / Monday 19 December 2018
Amser / Time - 7.30 yr hwyr
Lleoliad / Venue Neuadd – Canolfan Y Fron

Cyfarfod / Meeting – **Cyngor Arbennig – Ymgysylltu Gyda'r Gymuned / Special Council Meeting - Consulting With The Public**
Dyddiad / Date – Nos lun 7 Ionawr 2019 – Monday 7 January 2019
Amser / Time 7 pm
Lleoliad / Venue – i'w gadarnhau / tbc

Cyfarfod / Meeting – **Pwyllgor Cyllid / Finance Committee**
Dyddiad / Date – Nos Iau 3 Ionawr 2019 – Monday 3 January 2019
Amser / Time 7 pm
Lleoliad / Venue – i'w gadarnhau / tbc

Daeth y cyfarfod i ben am 8.50 yr hwyr / The meeting ended 8:50 pm

Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir – The Minutes were recorded as accurate	
Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor **Signed by the Chairmam**	
Dyddiad - Date	